Ebrill 2023

Annwyl Gymydog Rheilffordd,


**METRO DE CYMRU – GWAITH YNG NGORSAF FFYNNON TAF**

Rydym yn parhau i gyflawni ein gwaith yn Ffynnon Taf ar gyfer darparu ein gwasanaeth Metro a byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd a'r gwaith arfaethedig yn y depo, y ganolfan reoli a'r Orsaf. Hoffem ddiolch i chi am eich amynedd parhaus wrth i ni wneud y gwaith trawsnewidiol hwn yn Ffynnon Taf ac rydym am roi gwybodaeth i chi am y gwaith arfaethedig yng Ngorsaf Ffynnon Taf gan ddechrau gydag adeiladu pont Mynediad Hygyrch newydd.

**Adeiladu pont droed Mynediad Hygyrch newydd yng Ngorsaf Ffynnon Taf**

Cyn bo hir byddwn yn dechrau ar y gwaith o baratoi ar gyfer adeiladu pont Mynediad Hygyrch newydd yng ngorsaf Ffynnon Taf gyda lifft a grisiau i bob platfform. Bydd y bont newydd hon yn gwella hygyrchedd yr orsaf yn fawr, yn ogystal â sicrhau lefel gwastad o'r platfform i'r trên yn sgil cyflwyno'n trenau tram newydd.

Mae angen i ni osod sylfeini ar gyfer y bont gan ddefnyddio peiriannu trwm, sydd, pan yn gosod seilbyst, yn gwneud llawer iawn o sŵn. Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn yn ystod **oriau dydd yn unig** a byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r effaith a gaiff ar gymdogion.



**Enghraifft o bont Mynediad i Bawb sy'n debyg i'r un fydd yn cael ei hadeiladu yng ngorsaf Ffynnon Taf**

**Dyddiadau gwaith arfaethedig**

Byddwn yn ymdrechu i gwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith i greu'r sylfeini ar gyfer y bont Mynediad Hygyrch newydd yn ystod sifftiau dydd yn unig, rhwng 08:00 ac 18:00.

Byddwn yn dechrau ar y gwaith galluogi er mwyn paratoi ar gyfer gosod y sylfeini ar gyfer y bont yn ystod sifftiau canol wythnos yn ystod y dydd o **ddydd Llun 10 Ebrill nes dydd Gwener 14 Ebrill**. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gosod byrddau dros dro o amgylch safle'r gwaith, gwaith draenio ym maes parcio'r orsaf a gosod platfform ar gyfer gosod seilbyst ar ochr maes parcio'r orsaf.

O d**dydd Llun 17 i ddydd Gwener 21 Ebrill**, byddwn yn gosod y sylfeini ar gyfer y bont ar y platfform 'ar i lawr' sydd wedi'i leoli agosaf at faes parcio'r orsaf.

Mae yna nifer o wahanol ddulliau o osod seilbyst, a byddwn yn tyllu seilbyst, seilbyst fydd yn cael eu eu drilio i'r ddaear. Er y gall y gwaith hwn fod yn arbennig o swnllyd, gall mynd ati'r ffordd hon i osod seilbyst aflonyddu llai na dulliau eraill, megis gosod dalennau o ddur yn hytrach na physt, lle caiff y seilbyst eu dirgrynu neu eu bwrw i'r ddaear. Gall gosod seilbyst fod yn waith swnllyd gan ein bod yn defnyddio peiriannau trwm i'w gyflawni, ac mae lefelau'r sŵn yn dibynnu ar bellter y lleoliad gosod y seilbyst a'r dopograffeg leol. Fodd bynnag, bydd yr holl waith gosod seilbyst yn yr orsaf yn cael ei wneud yn ystod y dydd er mwyn lleihau unrhyw darfu. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i leihau sŵn diangen ac yn cwblhau'r gwaith gosod seilbyst cyn gynted â phosibl.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Ad
Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Yna, bydd y rheilffordd ar gau yn ystod dyddiau'r wythnos am dair wythnos ar y dyddiadau canlynol;

- **Dydd Mawrth 25 i ddydd Gwener 28 Ebrill**
- **Dydd Llun 01 i ddydd Gwener 05 Mai**
- **Dydd Llun 08 i ddydd Gwener 12 Mai.**

Bydd y tîm yn gweithio yn ystod y dydd yn unig trwy gydol y cyfnod hwn, pryd byddant yn gosod pibelli ar y platfform ar i lawr, sydd agosaf at faes parcio'r orsaf, i ailgyfeirio holl wasanaethau'r platfform dros y bont newydd ac i alluogi pŵer ar gyfer y lifftiau.

O **ddydd Mawrth 25 Ebrill hyd nes ddydd Gwener 28 Ebrill**, byddwn yn gosod seilbyst er mwyn creu'r sylfeini ar gyfer y bont ar y platfform 'ar i fyny', ar yr ochr sydd agosaf at dai cymdogion. Er mwyn caniatáu i ni symud yr offer stancio o safle'r compownd ym maes parcio'r orsaf i'r traciau, byddwn yn gosod pont *Cordek* dros dro a fydd yn ymestyn ar draws y ddau drac. Byddwn hefyd yn codi ffensys ar y ddau blatfform ac yn gosod pibelli ar y platfform ar i lawr.

O **ddydd Llun 15 i ddydd Gwener 19 Mai**, byddwn yn parhau â'r gwaith o greu'r sylfeini ar y platfform ar i lawr, ar ochr maes parcio'r orsaf. Bydd y rheilffordd ar agor yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y gwaith gosod sylfeini yn parhau yn ystod sifftiau dydd canol wythnos o **dydd Llun 22 hyd nes ddydd Gwener 26 Mai**, ac o **ddydd Llun 29 Mai hyd nes ddydd Gwener 02 Mehefin**. Byddwn hefyd yn gosod pibelli ar y platfform 'ar i fyny' yn ystod y cyfnod hwn.

**Amserlen o'r gwaith arfaethedig yn yr orsaf:**

| Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen | Disgrifiad o'r Gwaith |
|---|---|---|
| Dydd Llun 10 Ebrill | Dydd Gwener 14 Ebrill | Gwaith galluogi a pharatoi |
| Dydd Llun 17 Ebrill | Dydd Gwener 21 Ebrill | Gwaith gosod seilbyst ar y platfform ar i lawr, ar ochr maes parcio'r orsaf |
| Dydd Mawrth 25 Ebrill | Dydd Gwener 28 Ebrill | Gwaith gosod seilbyst ar y platfform ar i fyny, ar yr ochr sydd agosaf at eiddo cymdogion |
| Dydd Llun 01 Mai | Dydd Gwener 05 Mai | Gwaith gosod pibelli ar y platfform ar i lawr i ailgyfeirio gwasanaethau a gosod ffensys. |
| Dydd Llun 08 Mai | Dydd Gwener 12 Mai | |
| Dydd Llun 15 Mai | Dydd Gwener 19 Mai | Gosod sylfeini ar y platfform ar i lawr. |
| Dydd Llun 22 Mai | Dydd Gwener 26 Mai | Gwaith gosod sylfeini ar y platfform ar i lawr a gwaith gosod pibelli ar y platfform ar i fyny. |
| Dydd Llun 29 Mai | Dydd Gwener 02 Mehefin | |




Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Ad
Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro

**Mynediad i'r orsaf a mynediad i'r bont droed**




Er mwyn caniatáu i ni osod y bont droed newydd, bydd y trefniadau parcio yng ngorsaf Ffynnon Taf yn newid rhywfaint. O **ddydd Llun 17 Ebrill,** bydd maes parcio presennol yr orsaf, sydd wedi'i liwio'n las yn y llun uchod, ar gau tra byddwn yn adeiladu'r bont newydd ac yn uwchraddio'r cyfleusterau parcio. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd lle i 80 o leoedd parcio yng nghyfleuster gorlif yr orsaf, y darn melyn yn y llun, sydd ger warws Amey Rail, gyferbyn â'r orsaf. Sylwch, maes parcio i'r staff yn unig yw'r rhan sydd wedi'i liwio'n goch.

Bydd pont droed bresennol yr orsaf yn parhau yn ei lle a bydd modd ei defnyddio tra bydd y bont newydd yn cael ei hadeiladu.

**Canolfannau galw heibio cymunedol**

Cynhelir ein sesiwn galw heibio gymunedol nesaf yn **Canolfan Gymunedol Tŷ Rhiw ar 19 Ebrill 2023, rhwng 4pm – 7pm**. Cofiwch ddod i'n gweld os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwaith arfaethedig.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn ar **17 Mai 2023 yn Neuadd Bentref Ffynnon Taf rhwng 10am – 1pm**.

**Rhagor o Wybodaeth**

Oherwydd maint y gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud, ni allwn ysgrifennu atoch pob tro y byddwn yn eich ardal. Fodd bynnag, ynghyd â'n partneriaid, byddwn pob amser yn ymdrechu i weithio'n gyfrifol, gan sicrhau bod ein safleoedd gwaith yn cael eu rheoli'n dda a bod ein pobl yn ystyriol o'n cymdogion.

Mae ein tîm ar gael 24/7 i ateb eich cwestiynau, felly ffoniwch 033 33 211 202. Fel arall, mae modd cysylltu â ni trwy WhatsApp ar 07790 952507 (0700-2000 ddydd Llun i ddydd Gwener, 0800-2000 ar ddydd Sadwrn a rhwng 1100-2000 ar ddydd Sul).

Os hoffech wybod mwy neu os hoffech gael yr wybodaeth mewn diwyg gwahanol, ewch i www.tfw.wales/cy/cysylltwch â ni. Gallwch ddysgu mwy am ein gweledigaeth ar gyfer Metro De Cymru yn https://trc.cymru/prosiectau/metro ac am ein gwaith yn adeiladu'r Metro yn https://trc.cymru/prosiectau/metro/adeiladu-ein-metro .

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich amynedd wrth i ni wneud y gwaith hanfodol hwn.

Yr eiddoch yn gywir,
Tîm Ymgysylltu Cymunedol Trafnidiaeth Cymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013.
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Ad
Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH